


Cylchgrawn i Alumni a Chyfeillion Prifysgol Bangor

HYDREF 2013

BANGORIAD



'Walking with Dinosaurs'

Y cynhyrchydd Tim Haines a enillodd gwobr BAFTA yn dod â'r Celfyddydau a'r Gwyddorau ynghyd



03/04/05 Newyddion

06 Lôn Cariadon

07 Neuadd Rathbone

09 Parc Gwyddoniaeth Menai

10/11 Digwyddiadau

12/13 Rhoi i Fangor

14 Proffiliau Alumni



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

BANGORIAD HYDREF 2013

Croeso

Cyfarchion o Fangor!

Wrth i'r gwaith adeiladu ar Pontio, y Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd ym Mangor, fynd yn ei flaen, a chyda dyfodiad Parc Gwyddoniaeth newydd yn yr ardal, mae Prifysgol Bangor a'r ardal yn cychwyn ar gyfnod cyffrous. Yn rhifyn presennol y Bangoriad, rydym yn dod â newyddion am y ddau broiect hyn i chi, yn ogystal â'r diweddaraf gan y Brifysgol a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni.

Rydym hefyd yn cyflwyno proffiliau rhai o'n halumni ac yn dathlu cyplau alumni yn ein herthygl Lôn Cariadon. Cysylltwch os oes gennych unrhyw hanesion i'w rhannu. Rydym yn gwerthfawrogi ein halumni ac wrth ein boddau yn clywed am eich amser ym Mangor a chael gwybod beth ydych yn ei wneud erbyn hyn, felly cadwch mewn cysylltiad.

Dymuniadau gorau,

Bethan Perkins Golygydd a Swyddog Datblygu Alumni

Swyddfa Datblygu a
Chysylltiadau Alumni
Prifysgol Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG
DU

Ffôn: + 44 (0) 1248 388332 / 382020
Ffacs: +44 (0) 1248 383268
e-bost: alumni@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/alumni

Prifysgol Bangor
+ 44 (0) 1248 351151



Gair gan yr Is-ganghellor

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd arall, rwyf wedi bod yn ystyried beth sy'n gwneud profiad Prifysgol Bangor yn un arbennig i'n myfyrwyr. Gan fod dros 12,000 ohonynt erbyn hyn, mae yna wrth gwrs lawer o amrywiadau unigol i rai o'r themâu cyffredinol rwyf wedi eu nodi yn ystod fy nhair blynedd yma. Mae'r rhain yn cynnwys: ansawdd ein haddysgu a'n dysgu; y cyfle a gaiff myfyrwyr i ymwneud ag aelodau staff academiaidd sy'n ymchwilwyr blaenllaw yn eu meysydd; y gweithgareddau allgwrwiclaidd sydd ar gael yn y Brifysgol ac yn y gymuned ehangach; ac yn olaf, ond eto'n bwysig iawn, ein safle mewn ardal eithriadol hardd yng Ngogledd Cymru.

Wrth i'n cymuned o fyfyrwyr hefyd - o fwriad - ddatblygu'n un gynyddol ryngwladol, rwy'n ymwybodol hefyd sut mae cymysgu â phobl o wahanol ddiwyllianau'n paratoi myfyrwyr at fywyd y tu hwnt i Brifysgol Bangor. Rydym yn addysgu ein myfyrwyr i fod yn ddinasyddion byd-eang da, ac i addasu ac ymestyn eu gwybodaeth o'u cyfnod yn y brifysgol wrth iddynt ddechrau ar yrfaedd mewn amryfal feysydd. Yr hyn sy'n uno ein grŵp amrywiol o dros 52,000 o alumni - y bydd ein myfyrwyr presennol yn ymuno â hwy ar ôl

iddynt raddio - yw'r amser y gwnaethant ei dreulio ym Mangor, a'r ffordd mae hynny wedi dylanwadu ar lwybrau eu bywydau'n ddiweddarach.

Rydym i gyd yn y Brifysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth ariannol a gwirfoddoli y mae ein alumni - o Brifysgol Bangor, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor, y Coleg Normal a Choleg y Santes Fair - a chyfeillion yn ei rhoi i sicrhau parhad llwyddiant y profiad hwn. Yn y rhifyn hwn o'r Bangoriad fe welwch y Gofrestr Rhoddwyr ddiweddaraf, sy'n cydnabod y gefnogaeth y mae unigolion a sefydliadau'n ei rhoi i feysydd yn amrywio o ysgoloriaethau a gweithgareddau myfyrwyr i raglenni academiaidd a datblygiadau cyfalaf, yn cynnwys Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi Pontio, a fydd yn agor y flwyddyn nesaf.

Diolch i chi am gadw eich cysylltiad â Bangor ac am eich diddordeb cyson yn ein llwyddiant. Rwy'n gobeithio y cewch gyfle i ymweld â Bangor eto yn fuan.

Yr Athro John G. Hughes
Is-Ganghellor

SWYDDFA DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI

Rydym ni yma i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch gilydd a'r Brifysgol.

Ewch i'n gwefan i weld manylion digwyddiadau, gwasanaethau a'r buddion sydd ar gael a gwybod mwy am ein gweithgareddau codi arian. Gallwch hefyd weld beth mae cyn-fyfyrwyr eraill yn ei wneud heddiw, a gweld manylion am sut gallwch chi gymryd rhan:

www.bangor.ac.uk/alumni

Dod o hyd i ffrind

Ydych chi wedi colli cysylltiad â ffrind dros y blynyddoedd? Gallwn ni eich helpu! E-bostiwch fanylion eich hen ffrindiau at alumni@bangor.ac.uk a byddwn yn chwilio drwy ein cronfa data i weld a oes gennym fanylion cyfredol ar eu cyfer, a cheisio eich rhoi mewn cysylltiad â'ch gilydd eto.

Cadw mewn cysylltiad ar-lein

facebook

Bangor University
Alumni
Prifysgol Bangor

twitter

BangorAlumni

LinkedIn

Bangor University
ALUMNI

Bangoriad Ar-lein

Helpwch ni i leihau costau a niwed i'r amgylchedd drwy ddewis derbyn Bangoriad ar-lein yn unig. Os ydych yn fodlon derbyn rhifynnau Bangoriad drwy e-bost yn y dyfodol, ewch i www.bangor.ac.uk/alumni/update i ddangos eich diddordeb.

Cydnabyddiaethau: Hyd eithaf ein gwybodaeth, roedd yr erthyglau sydd wedi'u hargraffu yma yn gywir adeg mynd i'r wasg. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn o anghenraid yn eiddo i Brifysgol Bangor na'r Golygydd. Am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl, cysylltwch â'r Golygydd.

Gwarchod Data: Cedwir data am alumni yn ddiogel a chyfrinachol yng nghronfa ddata alumni'r Brifysgol yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni i'r diben o hybu cysylltiadau agosach rhwng y Brifysgol a'i chyn-fyfyrwyr. Mae'r data ar gael i adrannau academiaidd a gweinyddol y Brifysgol i'r diben o hyrwyddo cysylltiadau agosach â chyn-fyfyrwyr, yn ogystal â chymdeithasau cydnabyddedig y Brifysgol. Am fwy o fanylion ewch i: www.bangor.ac.uk/alumni

© Prifysgol Bangor 2013



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

www.bangor.ac.uk/news

NEWYDDION BANGORIAD

PROJECT DEMENTIA A'R CELFYDDYDAU GWELEDOL

Mae Prifysgol Bangor wedi derbyn grant Rhaglen Cymunedau Cysylltiedig o £1.2 miliwn i arwain project a fydd yn edrych ar sut gall y celfyddydau gweledol gyfrannu at iechyd a lles pobl gyda dementia.

Mae gan y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia ym Mhrifysgol Bangor arbenigedd mewn datblygu ac ymchwilio i effeithiolrwydd ymyriadau seico-gymdeithasol ar bobl â dementia a'u gofalwyr, ymyriadau sy'n gwella iechyd a lles mewn pobl hŷn, a chyflwyno hyfforddiant arbenigol mewn gofal dementia.

Drwy weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, mae'r ymchwili yn gallu cynhyrchu gwybodaeth a chreu adnoddau sydd o bwys uniongyrchol i'r grwpiau dan sylw, ond sydd hefyd â manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach.

CYNLLUN IAITH

Ym mis Mai, pwysleisiodd Prifysgol Bangor ei hymrwymiad i'r Gymraeg wrth i'r Is-ganghellor, Yr Athro John G. Hughes, lansio ei chynllun iaith diwygiedig.

Roedd y lansiad yn arwydd o ymrwymiad y Brifysgol i gynnal y safonau uchaf posib, i barchu'r iaith a'i defnyddio i'r eithaf ym mhob agwedd ar ein gwaith a'n cenhadaeth.

Yn ei chynlluniau niferus i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae'r Brifysgol yn awyddus i ddiogelu ei safle fel y sefydliad addysg uwch arweiniol o ran y Gymraeg ac i arwain yn y maes a chefnogi a chynghori eraill i gyrraedd yr un safonau.

ALUMNUS / ALUMNA Y FLWYDDYN



Mae Alumnus / Alumna y Flwyddyn yn cydnabod cyn-fyfyriwr sydd wedi cael llwyddiannau arbennig naill ai yn y sectorau cyhoeddus neu breifat yng Nghymru, rhannau eraill o Brydain neu'n rhyngwladol. Mae'n bleser gan Brifysgol Bangor gyhoeddi mai Catrin Brace yw enillydd gwobr gyntaf Alumnus / Alumna y Flwyddyn.

Fe wnaeth Catrin, sy'n wreiddiol o Ben-y-bont ar Ogwr, raddio yn y Gymraeg yn 1975. O'i gwaith cynnar ym maes tafodieithoedd, hanes llafar a dweud storïau, ac fel ymchwilydd i Amgueddfa Werin Cymru, i'w swydd bresennol fel Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn yr Unol Daleithiau i Lywodraeth Cymru, mae ganddi argyhoeddiad cadarn fod Cymru'n bwysig yn y byd. Mae Catrin yn cynrychioli Cymru a Llywodraeth Cymru'n rheolaidd fel siaradwr gwadd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a chiniawau, ac mae'n gweithio'n ddiflino i hyrwyddo Cymru yn yr Unol Daleithiau yn y sectorau busnes, diwylliannol ac academaidd. Mae wedi cefnogi llawer o ddigwyddiadau'r Brifysgol ac wedi helpu i greu a chryfhau cysylltiadau rhwng Prifysgol Bangor a'r Unol Daleithiau.

Llongyfarchiadau mawr i Catrin ar ennill y wobwr. I ddarllen proffil llawn Catrin, ewch i:
www.bangor.ac.uk/alumni/award/2013

Os hoffech enwebu alumnus am Wobr Alumnus y Flwyddyn 2014, ewch i'n gwefan am gyfarwyddiadau:
www.bangor.ac.uk/alumni/award



Cymrodoriaethau er Anrhydedd 2013

Dyfarwyd Cymrodoriaethau er Anrhydedd yn ystod seremonïau graddio Prifysgol Bangor 2013 i'r canlynol:

Geraint Talfan Davies, Cadeirydd y Sefydliad Materion Cymreig ers 1992 a Chadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru. Rheolwr BBC Cymru, 1990-2000

Dr Lyn Evans CBE, FRs, Cyn-bennaeth Project y Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr yn CERN, y Swistir

Dr Peter Florence MBE, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gŵyl y Gelli

Ann Griffiths, Telynores, hanesydd y delyn, athrawes a chyfansoddwraig a aned yn ne Cymru

Eric Hepburn, Conswl Cyffredinol Prydain yn Washington DC a chyn-fyfyriwr Ysgol Busnes Bangor (1983)

Patrick Holdich, Conswl Cyffredinol Prydain ym Montreal ers 2009 a chyn-fyfyriwr Bangor (Hanes, 1978)

Bryan Hope, Cyn brif beiriannydd Cynnal a Chadw yng Nghyngor Gwynedd a Llywydd Ymddiriedolaeth Ddiwydiannol Amlwch

Tom James MBE, Enillydd medalau aur am rwyfo ym Mhencampwriaethau'r Byd ac yn y Gemau Olympaidd, magwyd yng Nghoedpoeth ger Wrecsam

Huw Jones, Cadeirydd S4C, Cyd-sylfaenydd Recordiau Sain a Theledu'r Tir Glas

Yr Athro Paul Mealor, Athro Cyfansoddi ym Mhrifysgol Aberdeen, a aned yn Llanellwyl

Yr Athro Mark Williams FBA, Athro Seicoleg Glinigol yn Rhydychen ers 2004. Yn flaenorol yn Athro Seicoleg Glinigol ym Mangor (1991-97) ac yn Ddirprwy Is-ganghellor (1997-2001) Prifysgol Bangor.

Hefyd yn derbyn Cymrodoriaethau a dyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol oedd:

Terry Hands, Cyfarwyddwr Clwyd Theatr Cymru ers 1997

Terry Jones, awdur, actor a chyfarwyddwr ffilmiau sy'n fwyaf adnabyddus am ei ymddangosiadau a gwaith ysgrifennu ar gyfer Monty Python's Flying Circus (1969-75). Ganwyd Terry Jones ym Mae Colwyn a bu'n allweddol yn y gwaith o adfywio Theatr Colwyn.



O'r chwith i'r dde: Eric Hepburn, Tom James MBE a Terry Jones

UNIVERSITY CHALLENGE

Llongyfarchiadau mawr i dîm University Challenge Prifysgol Bangor am gyrraedd y rownd gynderfynol o'r sioe gwis BBC yn ystod yr haf, yn curo timau fel Durham, St. Andrews, a Coleg King's, Caergrawnt.

Aelodau'r tîm oedd: Nina Grant (Ffrangeg ac Ieithyddiaeth), Simon Tomlinson (Seicoleg), Mark Stevens (Gwyddoniaeth Amgylcheddol) ac Adam Pearce (Cyfieithu).

Meddai capten y tîm, Nina Grant: "Mae hyn wedi bod yn brofiad anhygoel, 'doedd yr un ohonom yn sylweddoli wrth ddechrau y byddem yn cyrraedd mor bell ond rwy'n credu bod gan aelodau'r tîm ystod eang o wybodaeth."



MYFYRWYR MENTER YN CAEL EU GWOBROWYO

Mae Byddwch Fentrus (B-Enterprising) ym Mhrifysgol Bangor, sy'n rhoi cefnogaeth i gannoedd o fyfyrwyr bob blwyddyn i ddatblygu eu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth, wedi rhoi Ysgoloriaethau Entrepreneuriaeth newydd, gwerth cyfanswm o £5,000, i'w myfyrwyr.

Mae Catrin Hicks (de), a raddiodd yn ddiweddar gyda gradd mewn Dylunio a Thechnoleg gyda Statws Athro Cymwysedig, wedi derbyn 'Ysgoloriaeth Rhagoriaeth mewn Menter' Santander-Abbey gwerth £1,000 i ddatblygu ei phroject ar declyn i osod blew amrant ffug.

Enillwyr eraill oedd Kalaivani Krishnanmurthi, un o raddedigion Ysgol Busnes Bangor, sydd wedi datblygu a lansio dau ap i ffonau symudol, alumna Astudiaethau Busnes a Ffrangeg Emma-Louise Jones am ennill y nifer uchaf o bwyntiau XP am weithgareddau menter yng Ngwobr Cyflogadwyedd Bangor a graddedigion Cyfrifiadureg Lee Williams a Shane Parker sydd wedi datblygu busnes i ddatblygu meddalwedd a chymwysiadau symudol pwrpasol a darparu gwasanaethau i'r we.



Derbyniodd tîm o fyfyrwyr entrepreneuraidd ysgoloriaeth hefyd am eu project 'University of Ales' sy'n mynd o nerth i nerth. Roedd y tîm yn cynrychioli Cymru yn rownd derfynol Prydain o'r Young Enterprise Start Up Programme, gan ennill gwobr am y Cynnig Buddsoddiad Gorau/Adroddiad Cwmni. Cynhyrnodd y tîm gynllun busnes i weithio gyda bragdai lleol i ail-farchnata eu cwrw dan frand newydd wedi'i anelu at y farchnad myfyrwyr.

PROJECT CYFLOGADWYEDD RHYNGWLADOL

Bwriad project newydd ar y cyd gyda Phrifysgol Aberystwyth, a gyllidir gan yr Academi Addysg Uwch, yw gwella rhagolygon cyflogaeth byd-eang ein myfyrwyr. Mae'r Project Cyflogadwyedd Rhyngwladol yn ceisio cynorthwyo myfyrwyr a graddedigion i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth rhyngwladol drwy ein alumni gan nodi lleoliadau gwaith ac interniaethau dramor, hysbysebu swyddi gwag rhyngwladol, a thrwy ddatblygu cyswllt gyda chyflogwyr rhyngwladol (yn cynnwys rhai ym Mhrydain â ffocws rhyngwladol) sy'n fodlon mentora ein myfyrwyr drwy e-bost, ffôn neu wyneb yn wyneb. Os gallwch chi gyfrannu unrhyw leoliadau neu fentor i fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, cysylltwch â ni yn: internationalemployability@bangor.ac.uk



GWEDDNEWID MAES GLAS

Fel Cam 1 project adnewyddu mawr yng nghanolfan chwaraeon Maes Glas Prifysgol Bangor, mae Dôm Awyr wedi cael ei godi i roi mwy o le i gystadlaethau pêl rwyd a tennis myfyrwyr, ynghyd â lliaws o weithgareddau eraill. Codwyd y dôm dros ddau gwrnt tennis awyr agored sy'n golygu y gellir chwarae tennis drwy'r flwyddyn, yn ogystal â darparu dau o gyrtiau pêl rwyd ychwanegol i bedwar tîm pêl rwyd Prifysgol Bangor.

Bydd Cam 2 y project adnewyddu'n awr yn cynnwys ad-drefnu'r tu mewn i ganolfan chwaraeon Maes Glas, yn cynnwys creu campfa dau lawr, stiwdio newydd i ddisbarthiadau ymarfer ac adnewyddu'r ystafelloedd newid yn llwyr.

Peidiwch ag anghofio bod alumni Bangor yn cael gostyngiad o hyd at 30% oddi ar gostau aelodaeth, dosbarthiadau a llogi cyrtiau ym Maes Glas - gofynnwch yn y dderbynfa am fanylion pellach.

HYRWYDDO EIN HANES A'N HETIFEDDIAETH

Yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf, bydd nifer o ystafelloedd ym Mhrif Afeild y Brifysgol yn cael eu hail-enwi ar ôl unigolion amlwg sy'n gysylltiedig â hanes y Brifysgol.

Bydd Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau yn cael ei enwi'n Ddarlithfa Eric Sunderland, er cof am y cyn Is-ganghellor, a fydd y pump darlithfa'n cael eu henwi ar ôl J. F. Danby, Brenda Chamberlain, R. T. Jenkins, Syr Ifor Williams ac A. H. Dodd. Bydd ystafelloedd hefyd yn cael eu henwi ar ôl R. Williams Parry a Kate Roberts, gydag ystafelloedd cynhadledd y Teras yn newid i Ystafelloedd Cledwyn.

GO WALES YN DATHLU



Mae rhaglen GO Wales yn dathlu ei phen blwydd yn 10 oed eleni. Mae GO Wales yn rhaglen drwy Gymru gyfan ac mae ganddi swyddfa ym mhob sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Mae swyddfa Bangor wedi ei lleoli yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae swyddfa Bangor wedi hwylyso 530 o leoliadau wedi eu noddi gyda chwmnïau bach lleol a 33 o leoliadau wedi eu noddi yn y sector cyhoeddus. Rydym wedi trefnu mwy na 400 gyfleoedd blasu gwaith yn yr ardal ac, ers 2009, wedi cymeradwyo 170 o geisiadau am gyllid hyfforddiant.



Darllenwch rai o'r llwyddiannau ar-lein: www.gowales.co.uk/en/Employer/News

I gael gwybod mwy am sut mae GO Wales yn cefnogi graddedigion a chyflogwyr yng Nghymru, ewch i: www.gowales.co.uk neu cysylltwch â'r tîm ym Mhrifysgol Bangor ar 01248 383 586 / gowales@bangor.ac.uk

MEDALAU CWMNI DRAPERS

Dyfarnwyd y medalau gan Gwmni Drapers i fyfyrwyr eithriadol, yn seiliedig ar gyrhaeddiad academiaidd ac ymwneud â'r gymuned academiaidd o fewn y Brifysgol ac yn rhyngwladol, yn ogystal â chyfraniad diwyllianol a chymdeithasol trwy ysgolheictod, effaith ymchwil, cefnogaeth fugeiliol a mentora.

Eleni, derbyniodd Rosie Poynor, myfyrwraig PhD yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer fedal arian am ei gwaith academiaidd ac am ei chyfraniad at addysg ei chyd fyfyrwyr. Dyfarnwyd medal efydd Gwmni Drapers i Helen Glanville, a enillodd ddoethuriaeth ym maes gwyddor amgylcheddol yn ddiweddar.



Rosie Poynor (de) a Meistr y Brethynwyr y fonesig Victoria Diana Leatham, DL

PRIFYSGOL WYRDDAF CYMRU

Mae Prifysgol Bangor wedi cael ei gosod yn ddeunawfed drwy'r byd am ei hymroddiad i'r 'agenda gwyrdd', yn ôl tabl cynghrair byd-eang. Mae'r tabl, a luniwyd gan Universitas Indonesia (UI), yn cymharu ymdrechion prifysgolion ym maes cynaliadwyedd a rheolaeth mewn ffordd sy'n gwarchod yr amgylchedd o dan gategorïau fel rheoli gwastraff, defnyddio dŵr a chluant.



MEDAL I ALWYN R. OWENS

Peiriannydd enwog a chyn bennaeth yr Adran Electroneg ym Mhrifysgol Bangor, Alwyn R. Owens, oedd enillydd Medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau eleni. Graddiodd Alwyn (uchod) o Fangor yn 1952 gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Peirianeg Electronig cyn astudio Mathemateg fel myfyrwr ôl-raddedig a wedyn symud i Brifysgol Manceinion i wneud gradd uwch. Bu gyda'r Sefydliad Ymchwil Ynni Atomig (AERE) yn Harwell am 5 mlynedd cyn dychwelyd i Fangor yn 1960 lle bu'n dysgu tan iddo ymddeol yn 1998. Llonyfarchiadau Alwyn!

CYMRODYR CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Llonyfarchiadau i bedwar aelod o staff Prifysgol Bangor sydd wedi eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Yr unigolion yw: Yr Athro Dyfrig Hughes FLSW, Athro Ffarmacoeconomeg, y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau; Yr Athro John Hughes FBCS FLSW, Is-ganghellor; Yr Athro Jerry Hunter FLSW, Athro'r Gymraeg a Chyfarwyddwr Ymchwil (Diwylliant), Pontio, a'r Athro Thomas Watkin FLSW, Athro Anrhydeddus y Gyfraith.

Lôn Cariadon



A wnaethoch chi erioed gamu i lawr Lôn Cariadon gyda'ch cymar oes pan oeddech chi'n fyfyrwyr yn y Brifysgol? Mae llawer o gyn-fyfyrwyr Bangor yn briod â chyn-fyfyrwyr eraill y gwnaethant gyfarfod â nhw yn ystod eu cyfnod yma yn y brifysgol. A dweud y gwir, cyfarfu Bethan Perkins, (née Taylor, leithyddiaeth, 2002), ein Swyddog Datblygu Alumni, ei gŵr Dave pan oeddynt yn fyfyrwyr yn byw yn Neuadd Reichel!

Isod ceir detholiad o straeon serch Bangor ac mae mwy i'w gweld ar-lein ar:

www.bangor.ac.uk/alumni/loncariadon



"Dyweddïon ni yn Nhachwedd 1968. Gadawodd Phil Fangor wedi dwy flynedd, ond ddeunaw mis wedyn cafodd swydd gyda'r Swyddfa Gartref ym Mae Colwyn yn gofalu am delegyfathrebu'r heddlu a'r gwasanaeth tân. Yna, ychydig ddegawdau

wedyn, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gafodd wrth astudio pynciau cyfrifiadurol ym Mangor, aeth i weithio ym maes caledwedd cyfrifiadurol hyd nes iddo ymddeol. Graddiais yn 1971, pan briodasom, yna gwnes gwrs TAR ym Mangor, a bûm yn dysgu Saesneg ac Addysg Grefyddol hyd nes imi ymddeol. Rydym yn byw ym Macclesfield, sef y dref lle cefais fy magu.



Mae gennym ddau o blant, Michael (35) a aeth i'r awyrlu cyn gwneud gradd ddysgu dylunio a thechnoleg yn Sheffield Hallam, a Liz (30). Graddiodd hi mewn Astudiaethau Teulu yn Lancaster, ac mae newydd orffen M.A. mewn Gwaith Cymdeithasol yn Salford. Rydym yn byw ym Macclesfield, ac yn mwynhau breintiau nain a thaid drwy ofalu am ein hŵyr, Albert, bob wythnos.

Roedd Bangor yn lle gwych i astudio ynddo, ac i ddechrau canlyn. Rydym yn mynd yn ôl yn aml, ac wedi mwynhau'n fawr iawn y digwyddiadau i alumni rydym wedi mynd iddynt."

Delia Archer (née Spilsted), Saesneg ac Astudiaethau Beiblaidd, 1971



"Fe wnes i gyfarfod fy ngŵr Mahfuz ar ôl i ffrind ein cyflwyno ni yn 2007. Daethom yn ffrindiau da iawn a threulio llawer o amser gyda'n gilydd. Gan ein bod o gefndiroedd diwylliannol gwahanol nid oeddwn eisiau cydnabod i ddechrau ein bod wedi'n bwriadu ar gyfer ein gilydd. Rwyf yn hanu o Lwcsembwrg, ac mae ef o Fangladesh. Ac er bod ein dwy fagwraeth yn bur wahanol, roeddem yn meddwl yn debyg am faterion pwysig bywyd.

Cawsom fywyd gwych ym Mangor nes i Mahfuz orffen ei radd a mynd adref i Fangladesh am flwyddyn. Roedd yn amser anodd iawn oherwydd mai dim ond dros y ffôn y gallem siarad ac yn aml nid oedd y cysylltiad yn un da.

Ar ôl blwyddyn, dychwelodd i Fangor ac yna yn 2010 gwnaethom symud i Lwcsembwrg a phriodi yno ar 3 Rhagfyr. Ym mis Mai 2011, euthum i Fangladesh am y tro cyntaf i gwrdd â'i rieni. Cawsom ddathliad gyda'i deulu a'i ffrindiau ac roeddwn yn teimlo fel tywysoges o un o straeon Y Fil Noswaith ac Un. Y mis Awst hwnnw, cawsom briodas Fwslimaidd a Chatholig yn Lwcsembwrg a dathlu gyda'm teulu i a'n ffrindiau ni'n dau. Roeddem yn lwcus iawn bod rhai o'n ffrindiau gorau o Fangor yn gallu bod yna i ddathlu gyda ni."

Layne Schmitz, Saesneg, 2007

"Cyfarfûm â'm gŵr Alex pan oeddem ni'n dau yn astudio ym Mangor. Roedd yn astudio Gwyddorau Biofeddygol ac roeddwn innau'n astudio Seicoleg, ond fe wnaethom gwrdd wrth berfformio South Pacific gyda SODA (cymdeithas drama gerdd y myfyrwyr). Cymerodd flwyddyn i ni ddod at ein gilydd, ond yn y pendraw gofynnodd i mi fynd allan ag ef ar Ddydd Gŵyl Dewi 2005. Gwnaethom briodi ym mis Medi 2012 yn Eglwys Gadeiriol Lancaster ac roedd nifer o'n hen ffrindiau o SODA yno."



Hannah Morris (née Kearney) Seicoleg, 2005

"Dechreuais yn yr adran Fioecemeg yn 1975. Roedd Heather Quayle yn y flwyddyn oddi tanaf, ond ni wnaethom gyfarfod tan 1979 pan oeddwn yn gwneud gwaith doethuriaeth ac roedd hi yn ei thrydedd flwyddyn.

Cawsom ein cyflwyno gan ffrind, Anuka (sydd bellach wedi marw gwaetha'r modd).

Gwnaethom briodi yn 1988 - y gwas priodas oedd Dave (Jim) Roberts, sydd hefyd yn gyn-fyfyrwr Bioecemeg, a chefais i'r anrhydedd o ad-dalu'r gymwynas yn ei briodas yntau. Symudodd Heather a minnau yn gyntaf i Leeds ac yna i Kendal. Ganed ein merch Katie yn 1990, ac mae'n astudio meddygaeth yn Sheffield, a ganwyd Chris ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae Chris yn awr yn astudio Biolog ym Mangor. Daeth Holly (ychydig yn annisgwyl!) 7 mlynedd yn ddiweddarach.

Roeddwn yn caru Bangor, ac er fy mod yn byw mewn rhan brydferth o'r byd yn awr, rwy'n dal i fetu'r cymysgedd yna o'r mynyddoedd, y môr a Chymreictod. Byddaf yn dychwelyd yn aml [mae gen i esgus da yn awr bod Chris yno!]"

Allan Miller, Bioecemeg, 1978

"Wrth gofrestru ym mis Medi 1956 roedd ffrind i mi, Sophia Mortimer, wrth y bwrdd Gilbert a Sullivan gyda myfyrwr ôl-raddedig, Peter Arnott, pan oeddwn i wrth fwrdd y Gymdeithas Gatholig. Gwahoddodd Sophia fi i ymuno â rhai o'r criw G&S am egwyl yn yr Undeb. Roedd copi o 'Punch' yn mynd o gwmpas y bwrdd ac fe wnaeth Peter a minnau ei rannu. Rwy'n darllen yn gynt na'r rhan fwyaf o bobl ond pan wnes i edrych i fyny i weld am ba mor hir y byddai'n rhaid i mi ei ddisgwyl, gwelais ei fod wedi gorffen yn barod. Meddylodd y ddau ohonom "O'r diwedd! Rhywun na fydd angen i mi aros amdano" ac roeddem wedi dyweddio ymhen tair wythnos.

Gwnaethom briodi yn 1958 ar ôl i ni'n dau raddio ac yna mudo i'r Unol Daleithiau ble buom yn hapus gyda'n gilydd nes y bu farw yn 1990."

Eva Arnott (née Schenkel), Saesneg / Athroniaeth, 1958



Hanes Neuadd Y BRIFYSGOL



Mae aelod o staff Prifysgol Bangor sydd hefyd yn gyn-fyfyriwr, Keith Beasley (1979, Peirianeg Electronig), yn olrhain hanes un o brif adeiladau'r Brifysgol, o neuadd breswyl i ferched yn unig i fod yn ganolfanwynt Gwasanaethau Myfyrwyr.

"Cerddwch ar hyd Ffordd y Coleg hyd at Brif Adeilad y Brifysgol, a byddwch yn mynd heibio adeilad trawiadol o frics coch. I fyfyrwyr presennol, yn enwedig y rhai o bedwar ban byd sy'n gwella eu gwybodaeth o'r Saesneg, Neuadd Rathbone yw ei enw, cartref ELCOS: y Ganolfan Iaith Saesneg ar gyfer Myfyrwyr

Tramor. Mae hefyd ar hyn o bryd yn gartref i CAR (ly Ganolfan Addysg Ryngwladol) a'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr. Fodd bynnag, preswylwyr diweddar yw'r rhain i gyd, yn un o'r adeiladau hanesyddol hynaf sy'n rhan o bortffolio Ystadau helaeth Prifysgol Bangor.

Ym 1902, yn ystod ymweliad gan Eu Huchelderau Brenhinol Tywysog a Thywysoges Cymru â Bangor a Chaernarfon, ar achlysur Sefydlu Ei Uchelder Brenhinol yn Ganghellor Prifysgol Cymru, cyflwynwyd tusw o flodau iddo yn Neuadd y Brifysgol.

Trwy gydol yr amser y defnyddiwyd y Neuadd fel preswylfa, o leiaf tan y 1990au, câi myfyrwyr brydau bwyd wedi'u coginio, yn wahanol iawn i brydau bwyd parod a chynigion arbennig o Morrisons yr oes sydd ohoni!

O ganol y 1970au tan y 1990au cynnar, cyn troi'n 'Rathbone', adwaenid Neuadd y Brifysgol fel Neuadd John Morris-Jones - neu 'JMJ', h.y. neuadd breswyl y myfyrwyr oedd yn siarad Cymraeg. Mae'r rhod wedi troi, o'r adeg na siaredid gair o Saesneg o fewn y waliau hynny i'r oes bresennol, a'r Saesneg yn cael ei dysgu yma!"

Mae mwy o luniau cynnar o Neuadd y Brifysgol i'w gweld ar dudalen Facebook ELCOS:

www.facebook.com/BangorEnglishLanguageLearners

Diolch i Archifau'r Brifysgol (www.bangor.ac.uk/archives) am luniau a deunydd cefndirol.



Ym 1897, agorodd Neuadd y Brifysgol fel Hostel i Fenywod ar gyfer 48 o fyfyrwyr, a'r ffioedd preswyl ar gyfer ystafell astudio breifat wedi'u penne'u £61 y sesiwn, yn cynnwys defnydd cyrtiau tennis y Neuadd.

Yr Ysgol Seicoleg YN DATHLU'I phen-blwydd yn 50



Yr Athro C. Fergus Lowe (chwith) a BF Skinner

Eleni mae Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor yn dathlu'i phen-blwydd yn 50, sy'n golygu'i bod yn un o'r ysgolion hynaf yn y DU.

I nodi'r digwyddiad hwn, bydd yr ysgol yn cynnal nifer o ddigwyddiadau yn 2013/14, ac mae wedi sefydlu gwefan sy'n gyforiog o wybodaeth am ddatblygiad yr ysgol dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

I ddechrau'r dathliadau, cynhaliodd yr ysgol Ceilidh pen-blwydd ar 4 Gorffennaf i gyd-fynd â chinio cynhadledd y Gymdeithas Seicoleg Arbrofol (Experimental Psychology Society) y cafodd yr ysgol yr anrhydedd o'i chynnal eleni. Yn bresennol yn y Ceilidh roedd aelodau staff presennol a chyn-aelodau, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r myfyrwyr presennol, ac alumni. Mae'r Ysgol hefyd wedi nodi'r pen-blwydd gydag Ysgol Haf ar botensialau digwyddiad-berthynol (ERP), ac ysgoloriaethau PhD.

Mae'r Ysgol wedi tyfu o fod yn adran gyda dim ond 43 myfyrwr a llond llaw o staff yn 1963, i fod yn un o'r adrannau Seicoleg mwyaf o'r 130+ o adrannau

yn y DU, gyda dros 1,300 myfyrwr a 50 aelod o staff. Ar hyd y daith, mae'r Ysgol wedi profi nifer o uchafbwyntiau, yn cynnwys ymweliad gan BF Skinner yn 1969 (gweler y llun), datblygiad y Ganolfan Dyslecsia Miles enwog a'r grŵp ymchwil Food Dudes, sefydlu'r cwrs DClinPsy cyntaf i'w ddysgu yn y DU, y cwrs ABA cyntaf i gael ei achredu gan y BACB yn Ewrop, a dyfodiad sganwr fMRI at ddibenion ymchwil. Ar hyn o bryd gall yr Ysgol hawlio ei bod nid yn unig ymysg yr adrannau Seicoleg hynaf a mwyaf yn y DU, ond ymysg y goreuon hefyd. Rhestrir hi yn uchel yn nhabl The Times, yn cynnwys cael ei gosod yn ail am 'Brofiad Myfyrwyr'. Mae wedi'i rhestru ymysg y 5 uchaf am 'Fodlonrwydd Myfyrwyr' yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr dros y tair blynedd ddiwethaf, ac yn seithfed yn y DU am bŵer ymchwil yn seiliedig ar yr Ymarfer Asesu Ymchwil diweddaraf. Ar hyn o bryd, gellir rhannu prif gryfderau'r ysgol yn ôl y pedair prif thema ganlynol: Canfyddiad, gweithredu a chof; Iaith, dwyieithrwydd a datblygiad gwybyddol; Niwrowyddoniaeth

gymdeithasol, a seicoleg ymddygiad, iechyd, a chlinigol. Meddai'r Athro Charles Leek, pennaeth presennol yr Ysgol, "Nid wyf yn credu mai dim ond y ffaith fod yr Ysgol yn fawr, yn hen, ac yn uchel ei pharch sy'n ei gwneud hi'n lle mor unigryw. Beth sy'n arwyddocaol go iawn i staff a myfyrwyr fel ei gilydd yw'r awyrgylch cyfeillgar sy'n mynd law yn llaw â'n rhagoriaeth ym meysydd dysgu ac ymchwil."



Dros y flwyddyn academiaidd nesaf, wrth i'r hanner canfed garfan o fyfyrwyr Seicoleg israddedig

ddechrau ar eu taith academiaidd, mae'r Ysgol yn cynllunio nifer o ddigwyddiadau eraill i nodi'r achlysur, yn cynnwys cyfres fer o ddarlithoedd cyhoeddus gan aelodau staff presennol a chyn-aelodau, a chyhoeddir y rhain ar wefan yr Ysgol. Mae'r Ysgol yn annog unrhyw gyn-aelodau staff neu gyn-fyfrwyr i edrych ar ein gwefan i ddathlu'r hanner cant: www.bangor.ac.uk/psychology, neu i ddilyn y ffrwd Twitter: @PsychBangor

Bangor yn arwain y gwasanaeth band eang

Mae technoleg chwyldroadol gadarn ar gyfer y dyfodol, a gynigiwyd gyntaf gan Brifysgol Bangor, yn arwain o ran cyflawni'r galw am gynyddu cyflymder a gallu'r rhyngwyd yn sylweddol.

Mae'r Athro Jianming Tang o Ysgol Peirianeg Electronig Prifysgol Bangor yn wyddonydd blaenllaw ym maes y dechnoleg newydd, sydd yn defnyddio'r ceblau rhyngwyd optegol presennol, i gynyddu trawsyriant band eang hyd at ddwy fil o weithiau yn fwy na'r cyflymder a'r gallu presennol. Er enghraifft, byddai hynny'n golygu gallu lawr lwytho 20 ffilm hir mewn un eiliad.

Ffyrdd eraill o ddefnyddio'r gallu hwn yw 3D-TV, gwefannau cymdeithasol a rhannu fideos.

Mae Prifysgol Bangor yn arwain y project tair blynedd oherwydd y wybodaeth dechnegol unigryw sydd yn y Brifysgol. Mae partneriaid sy'n gweithio gyda Phrifysgol Bangor yn y consortiwm yn cynnwys y cwmnïau technoleg a sefydliadau ymchwil mwyaf blaenllaw drwy'r byd fel Fujitsu Semiconductors Ewrop.

Mae'r project yn werth dros dair miliwn Ewro ac yn cael ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd.

PARC Gwyddoniaeth Menai

Yn ddiweddar, rhoddodd Cyngor y Brifysgol sêl ei fendith ar fenter newydd o bwys, sef datblygu Parc Gwyddoniaeth dan arweiniad y Brifysgol.

Bydd safle Parc Gwyddoniaeth Menai yn fodd i ymchwil academiaidd flaengar gysylltu â datblygiadau masnachol er budd y gymuned leol a'r genedl gyfan. Mae Gogledd-Orllewin Cymru mewn lle da i gael budd o gyfuniad o ffactorau – y buddsoddiad mawr a ragwelir mewn projectau ynni carbon isel yn Ynys Môn, yn ogystal â dynodi Môn yn Barth Menter ac, wrth reswm, Prifysgol gerllaw a'r sefydliadau partner.

Ar y cychwyn, bydd Parc Gwyddoniaeth Menai yn canolbwyntio ar feysydd academiaidd technoleg lân ac ynni a systemau glân, ond bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i sawl Ysgol o fewn y Brifysgol i gydweithio mewn sectorau allweddol eraill. Y nod yw cyfuno'r byd academiaidd, ymchwil, a chwmnïau yn y sector preifat ar y safle hwn, gan greu swyddi uchel er gwerth ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru, rhanbarth y gwyddys ei fod ymysg y gwaethaf o ran diweithdra ymysg pobl ifanc.

Bydd y Parc Gwyddoniaeth yn darparu dull agored o arloesi, lle gellir profi a herio syniadau, a bydd yn roi cyfleoedd sylweddol ar gyfer rhwydweithio gan raddedigion ac alumni.

Y Parc Gwyddoniaeth fydd yr ychwanegiad diweddaraf at y diwydiant eco-gyfeillgar sydd eisoes yn bodoli yng Ngogledd Cymru, gan gynorthwyo i wneud y rhanbarth yn ganolbwynt ar gyfer gwyddor ynni yn Ewrop sy'n gydnaws â'r amgylchedd. Yn ddiweddar, mae Prifysgol Bangor wedi ennill gwobrau am fod y Brifysgol fwyaf eco-gyfeillgar yng Nghymru ac yn un o'r prifysgolion mwyaf ymwybodol o'r amgylchedd yn y DU, ac mae'r Parc Gwyddoniaeth, unwaith eto, yn amlygu ymrwymiad y Brifysgol i ymchwil i wyddor yr amgylchedd.

Mae cyn-Aelod Cynulliad Ynys Môn, Ieuan Wyn Jones, wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr ar y Parc Gwyddoniaeth; mae'r datblygiad i ddechrau yn 2014. Mae'r project yn cael £10m o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a £250k o gyllid referniw yn y flwyddyn gyntaf, a disgwylir mwy o gyllid referniw am y 3 blynedd ddilynol.

Wrth siarad am Barc Gwyddoniaeth Menai, meddai Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yr Athro John G. Hughes:

"Mae hwn yn gyfle heb ei ail, ac mae'n bleser gan y Brifysgol chwarae rhan lawn a gweithgar. Mae adfywio economaidd yn hollbwysig i'r rhan hon o Gymru, a bydd y Brifysgol yn ymdrechu i'r eithaf i wneud y fenter hon yn llwyddiant mawr."



DIGWYDDIADAU

Diolch i'r alumni sydd wedi dod i gwrdd ag aelodau o'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni eleni yn ystod ymweliadau â dinasoedd megis Dilyn, Newcastle-upon-Tyne a Boston, Massachusetts, USA. Byddwn yn eich hysbysu pryd y byddwn yn ymweld â'ch ardal chi, gan obeithio cwrdd â chynifer o alumni ag sydd modd yn ystod ein teithiau.

Rydym yn awyddus i glywed gennych am y mathau o aduniadau a digwyddiadau sydd o ddiddordeb ichi. Llenwch yr holiadur sydd wedi'i amgáu gyda'r rhifyn hwn o'r Bangoriad,

er mwyn i ni gael gwybod am y mathau o ddiwyddiadau yr hoffech fynd iddynt, fel y gallwn gynllunio ein gweithgareddau i'ch plesio chi.

Os hoffech drefnu eich aduniad eich hun, gall y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni eich helpu. Gallwn drefnu ymweliadau â'ch hen adrannau a chynnig cyngor ar lety, yn ogystal â cheisio cael hyd i unrhyw ffrindiau yr ydych wedi colli cysylltiad â hwy a'u gwahodd hwythau i'ch aduniad. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Perkins, Swyddog Datblygu Alumni, ar: b.w.perkins@bangor.ac.uk

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2013

Yn Awst 2013, daeth mwy na 150 o gyn-fyfirwyr a staff i'n haduniad alumni yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, digwyddiad blynyddol a gynhelir ar stondin Prifysgol Bangor ar brynawn Mercher yr ŵyl. Yn Llanelli y cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2014.



APÊL 2014 PONTIO

Yr haf hwn, lanswyd Apêl 2014 Pontio gyda chyngerdd arbennig a gynhaliwyd yn y Brifysgol, gyda'r canwr opera a chyngerdd adnabyddus o Gymru, Rhys Meirion, a Huw Ynry, a raddiodd yn ddiweddar o Fangor ac a enillodd Ysgoloriaeth fawreddog Bryn Terfel yn 2012. Am fanylion Apêl Pontio 2014, ewch i dudalen 12.

CARREG SYLFAEN PONTIO

Yn Ionawr, cynhaliwyd seremoni gerddorol wrth i garreg sylfaen Pontio, y Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd sydd i'w hagor ym Mangor yn 2014, gael ei dadorchuddio gan y cyn-Weinidog Addysg (ac alumnus o Fangor) Leighton Andrews AC, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a'r Is-ganghellor, yr Athro John G. Hughes.



SEFYDLIAD GWYDDOR Y MÔR, VIRGINIA

I ddathlu'r cysylltiadau hirsefydlog rhwng Ysgol Gwyddorau'r Eigion Prifysgol Bangor a Sefydliad Gwyddor y Môr, Virginia (VIMS) yng Ngholeg William a Mary, Williamsburg, Virginia, cynhaliwyd diwrnod alumni ym Medi. Ymunodd alumni â'r Is-Ganghellor, yr Athro John G. Hughes, am y diwrnod, a oedd yn cynnwys taith faes i'r bar-nysoedd, morfeydd heli a morlynnoedd dilychwin ar hyd arfordir allanol Virginia, taith o gwmpas cyfleusterau VIMS a phryd o fwyd môr. Diolch i'n Cydweithwyr yn VIMS am eu croeso cynnes.



DIWRNOD TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL ALUMNI

Dychwelodd 35 o alumni a'u gwesteion i Fangor ym mis Awst am ddiwrnod, i arddangos materion diwylliannol a chasgliadau Prifysgol Bangor. Dysgodd yr alumni gan sawl un o Ysgolion y Brifysgol am yr ymchwil ddiweddaraf, buont yn mwynhau cyflwyniadau ar hanes ac Archifau'r Brifysgol a buont yn gwrandao ar ddarlenniadau o farddoniaeth gan yr Athro Gwyn Thomas.



GRŴP 2020 BANGOR

Parhau i dyfu y mae Grŵp 2020 Bangor, ar gyfer alumni blaenllaw a chyfeillion i'r Brifysgol sydd wedi'u lleoli yn Llundain, ac mae croeso i gyn-fyfirwyr ymuno â'r grŵp er mwyn rhwydweithio ag alumni eraill a chlywed am y datblygiadau diweddaraf ym Mangor. Am fwy o wybodaeth am Grŵp 2020 Bangor, cysylltwch â Bethan Perkins ar: alumni@bangor.ac.uk neu **01248 388332**.

GŴYL CYMRU GOGLEDD AMERICA

Roedd yn bleser gan Brifysgol Bangor fod yn rhan o Wyl Cymru Gogledd America a gynhaliwyd yn Toronto, Canada, yn Awst, pryd cyfarfodd Bethan Perkins, Swyddog Datblygu Alumni, â sawl alumnus o Fangor a rhai a oedd â chysylltiadau â Gogledd Cymru. Trefnwyd yr wyl gan Dr. Megan Williams – sydd ei hun yn alumna o Fangor – ac mae'n anelu at hyrwyddo popeth Cymreig; roedd yn rhaglen yn cynnwys sesiynau dan arweiniad Yr Athro Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg ym Mangor.



RHWYDWEITHIO GYRFAOEDD ALUMNI

Mae'r gallu i ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth ein cyn-fyfyrwyr yn dod yn fwyfwy pwysig i fyfyrwr presennol Bangor cyn iddynt raddio a chychwyn ar eu gyrfaedd, ac mae'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd er mwyn trefnu cyflwyniadau a gweithdai dan arweiniad alumni. Diolch i bawb ohonoch sydd eisoes wedi'n helpu â digwyddiadau. Bwriedir cynnal digwyddiadau pwnc-benodol a sesiynau medrau cyffredinol, felly os hoffech wirfoddoli i gymryd rhan a rhannu eich profiadau â myfyrwyr Bangor, cysylltwch â: alumni@bangor.ac.uk

CANGEN WGANDA

Sefydlwyd cangen Wganda o alumni Bangor yn 2013 er mwyn cynnal gweithgareddau alumni a recriwtio myfyrwyr yn y rhanbarth. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'r grŵp, cysylltwch â'r Athro Joseph Obua, Cydlynnydd Cangen Wganda o Alumni Prifysgol Bangor yn: j.obua@vicres.net



HONG KONG

Cynhaliwyd derbyniad gyda'r Athro John G. Hughes yn Hong Kong ym mis Hydref 2012, ar gyfer alumni o Fangor a chysylltiadau eraill. Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn mynd i ddigwyddiadau anffurfiol ar gyfer alumni yn y rhanbarth, cysylltwch â: alumni@bangor.ac.uk

CLWB MYNYDDA PRIFYSGOL BANGOR, 1957-1962

Y llynedd, cyfarfu cyn-aelodau Clwb Mynydda'r Brifysgol i ddathlu 50 mlwyddiant y clwb.



Cefn: Ben Lyon, Annis Milner, Rosemary Tunstall, Doug Daniels.
Blaen: Mike Petrovsky, Ron Ferguson, Alan Orme, Dewi Hudson Jones.

ADUNIAD CHWARAEON Y 1960au A'R 1970au



Ym mis Medi 2012, cynhaliwyd aduniad ym Mangor i gyn-fyfyrwyr oedd yn aelodau o dimau chwaraeon yn ystod y 60au a'r 70au. Daeth mwy na 100 o gyn-fyfyrwyr i wrando ar ddarlith a draddodwyd gan Dr David Roberts, Cofrestrydd Prifysgol Bangor, ac i ddigwyddiad a gynhaliwyd fin nos ym Mar Uno ar Safle Ffriddoedd. Mae lluniau o'r digwyddiad i'w gweld ar ein gwefan: www.bangor.ac.uk/alumni/sportsgallery

Gobeithir trefnu aduniad arall ar gyfer y grŵp yn 2014/15. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn bresennol, cysylltwch â Foster Edwards ar: boyersorchard35@btinternet.com

CYMDEITHAS CYN- FYFYRWYR BANGOR

Ffurfiwyd Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Bangor yn ôl yn 1898 ac mae croeso i holl gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, Coleg Normal a Choleg Santes Fair ymuno â'r gymdeithas hon.

Cynhelir y cyfarfod blyneddol a chinio ym mis Medi / Hydref bob blwyddyn, gyda chinio anffurfiol ym mis Chwefror a byddai'r grŵp yn falch iawn o groesawu aelodau newydd.

Os hoffech ymuno â'r gymdeithas cyn-fyfyrwyr, neu gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ella Owens: ella.owens@btinternet.com neu ffoniwch: 01248 712573.

Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Aduniad Alumni Athen

Tachwedd 2013. Hotel Grande Bretagne
Cysylltwch ag: alumni@bangor.ac.uk

Aduniad Alumni Kölner

28 Tachwedd 2013. Brauhauskeller, Cölner Hofbräu P. Josef Früh
Cysylltwch ag: alumni@bangor.ac.uk

Penwythnos Hen Fechgyn 2014

Ymunwch â ni i ddathlu 50 mlwyddiant Penwythnos Hen Fechgyn, 3-5 Mai 2014

Aduniad Nawdd Nos

Chwefror 2014

Mae cynlluniau ar droed i gynnal aduniad o'r rhai fu'n ymwneud â Nawdd Nos, y gwasanaeth gwrando a gwybodaeth gyfrinachol a gynhelir gan fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr, yn ystod eu hamser hwy ym Mangor. Dyddiad i'w gadarnhau. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: nightline.coordinator@undeb.bangor.ac.uk

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli

6 Awst 2014, Stodin Prifysgol Bangor

Coleg Normal 1954-56

Cynhelir aduniad yn Hydref 2014 i ddathlu 60 mlwyddiant (fwy neu lai) y rheiny a oedd yn fyfyrwyr yn y Coleg Normal ym 1954-56. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ella Owens ar: ella.owens@btinternet.com neu: 01248 712573

Rhaglen Celfyddydau ac Arloesi Pontio yn cael ei gwireddu

Flwyddyn cyn agor Pontio, y ganolfan celfyddydau ac arloesi newydd, mae dinas Bangor a'r cylch yn dod yn fyw gyda chynyrchiadau a gweithgareddau gwych yn y gymuned. Cenhadaeth Pontio yw creu rhaglen artistig o'r safon orau sy'n arloesol, uchelgeisiol ac yn berthnasol i'n cymunedau.

Ym mis Gorffennaf daeth y 'No Fit State Circus' a'u cynhyrchiad "Bianco" i Fangor. Bu cannoedd o bobl yn mwynhau'r profiad o wyllo syrcais cyfoes gyda pherfformiadau acrobatig ac awyrol a gynhaliwyd o amgylch y gynulleidfa mewn pabell fawr ar Ffordd y Traeth. Perfformiwyd Bianco mewn lleoliadau eraill yn y DU yn cynnwys y safle Roundhouse enwog yn Llundain.

Gyda rhaglen yn cynnwys y doniau gorau o bob rhan o'r byd, o Gymru a'r ardal leol, mae gan Pontio restr o berfformwyr gwych i dymor yr hydref. Bydd y delynores fyd-enwog Catrin Finch a Seckou Kaita o Orllewin Affrica sy'n chwarae'r kora yn perfformio mewn cyngerdd ar 15 Tachwedd 2013 yn Neuadd Prichard-Jones Prifysgol Bangor. Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan: www.pontio.co.uk

Ni fyddai'n bosibl cynnal rhaglen celfyddydau ac arloesi Pontio heb gefnogaeth noddwyr hael. Llynedd, rhoddwyd rhodd o £300,000 gan y sefydliad Garfield Weston i gefnogi Theatr Stiwdio Pontio a fydd yn ganolfan i gynyrchiadau bach a gweithgareddau cymunedol ac yn ategu prif awdutorium blaengar Pontio. Meddai Kristen L. Gallagher, Pennaeth Datblygu a Chysylltiadau Alumni, "Wrth roi'r grant sylweddol hwn, un o'u rhoddion mwyaf tu allan i ganolfan fetropolitan fawr, dywedodd ymddiriedolwyr sefydliad Garfield Weston eu bod eisiau gwneud

rhywbeth i'r gymuned ehangach yn ardal Prifysgol Bangor. Rwy'n hynod falch bod y Sefydliad yn gweld gwerth unigryw mewn cefnogi rhaglen gelfyddydol ddwyieithog a chyffrous Pontio, fel y gall pawb gymryd rhan ynddi."

Mae noddwyr eraill yn cefnogi gweithgareddau celfyddydol Pontio yn ogystal â mentrau unigryw eraill ym Mangor sy'n dod â'r celfyddydau, cynlluniau arloesol a'r gwyddorau at ei gilydd. Bydd y rhaglen "NEET2work" a luniwyd gan Brifysgol Bangor ac sy'n derbyn cyllid sylweddol gan sefydliad Esmée Fairbairn, yn dod ag aelodau o'r gymuned nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant at ei gilydd gydag aelodau o staff academiaidd y Brifysgol, o feysydd fel seicoleg a busnes ac arweinwyr cymunedol lleol i gynllunio atebion i'r problemau yn eu cymunedau. Gall yr atebion hyn gynnwys cynnyrch neu ddulliau newydd o ymdrin â materion cymdeithasol. Trwy NEET2Work, bydd Bangor yn rhannu ffrwyth eu profiad academiaidd ac ymarferol gydag aelodau o'r gymuned sydd angen datblygu sgiliau cyflogadwyedd pwysig.

Dathlwyd rhan y gymuned yn Pontio hefyd yn ddiweddar pan lansiwyd apêl 2014 Pontio mewn cyngerdd ym mis Mehefin, a drefnwyd gan Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni a chyfarwyddwr artistig Pontio, Elen ap Robert. Ymhlith yr artistiaid oedd y tenor Rhys Meirion, sy'n ganwr opera a chyngherddau o fri, a'r tenor ifanc sy'n dechrau ar ei yrfa sef Huw Ynyr, myfyriwr cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor ac enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn 2012. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch gefnogi apêl 2014 Pontio, ewch i wefan www.bangor.ac.uk/rhoddwyr neu ffoniwch y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni ar 01248 382020. Byddwch yn rhan o Pontio!



Y GRONFA DIWYLLIANT A THREFTADAETH

Mae Prifysgol Bangor yn gweld gwerth yn ei threftadaeth a'i diwylliant Cymreig. Mae'n gennym lawer i fod yn falch ohono yn cynnwys Prif Adeilad y Celfyddydau a restrwyd yn adeilad gradd 1* a'n casgliadau arbennig ac archifau.

Am dros ganrif a chwarter, mae Prifysgol Bangor wedi cael creiriau diwyllianol o Gymru a ledled y byd, trwy brynu, rhoddion a chymynroddion gan gyn-fyfrwyr, ac fel teyrngedau i gyfeillion a pherthnasau. Erbyn hyn mae gan y Brifysgol gasgliad pwysig o asedau diwyllianol, yn

cynrychioli ystod eang o gyfryngau, yn cynnwys darluniau, cerfluniau, cerameg, murluniau, byd natur, offerynnau cerdd, llyfrau prin a llawysgrifau, a dodrefn. Rydym yn lansio apêl codi arian i ddathlu a diogelu'r trysorau hyn sy'n unigryw i Brifysgol Bangor. Gellwch ein helpu i barhau i fod yn warchodwyr pwysig o'r iaith Gymraeg, ei llenyddiaeth a chelf. Trwy gyfrannu at yr apêl arbennig hon byddwch yn helpu i gynnal ein hamgylchedd adeiledig a chadw ein harchifau a chasgliadau gwerthfawr. Bydd y gronfa hon yn cefnogi diogelu a dathlu ein casgliadau arbennig ac adnewyddu Prif Adeilad y Celfyddydau a restrwyd yn adeilad gradd 1*. Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Emma Marshall e.marshall@bangor.ac.uk neu 01248 382594. I roi rhodd ar-lein ewch i: www.bangor.ac.uk/rhoddwyr

RHAGLEN CYMYNRODDION

Ers ei sefydlu yn 1884 mae cymynroddion wedi helpu i lunio dyfodol Prifysgol Bangor. Yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni'r dyddiau hyn mae'r angen i fuddsoddi mewn addysg uwch yn fwy nag erioed a gall cofio am y Brifysgol yn eich ewyllys gael effaith barhaol ar fyfyrwyr yfory. Mae meysydd sy'n elwa oddi wrth gymynroddion yn cynnwys dibenion cyffredinol, ysgoloriaethau, ymchwil a thrwsio ac adfer Prif Adeilad y Brifysgol, sy'n adeilad rhestredig Gradd I. I gael gwybod mwy am ein rhaglen gymynroddion a Chylch 1884, cysylltwch â'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni, ar: **01248 382020**; e-bost: development@bangor.ac.uk neu ewch i'n gwefan.

PROFFIL MYFYRIWR: DANIAL HEMMINGS



ENILLYDD YSGOLORIAETH DR. PAUL FEENEY

“Rwyf yn fyfyrwr PhD yn fy ail flwyddyn yn Ysgol Busnes Bangor. Mae fy thesis yn canolbwyntio ar y posibilrwydd fod cwmnïau’n cyflyru’r farchnad cyn cyflwyno ecwiti newydd.

Mae’n ystyried a ddefnyddir cysylltiadau corfforaethol – er enghraifft, trafodaethau mewn adroddiadau blynyddol, datganiadau i’r wasg a gwefannau cwmnïau – er mwyn ennyn gormod o ddiddordeb gan fuddsoddwyr, fel y codir cyfalaf ar delerau mwy ffafriol. Mae nodweddion cynnil y cyfathrebu sy’n digwydd rhwng cwmnïau a’r marchnadoedd, sydd mewn rhai ffyrdd yn hyrwyddo’r syniad o ‘werth’ a fegir gan gymdeithas yn bwnc sydd o ddiddordeb mawr imi.

Ni fyddwn wedi penderfynu dilyn gyrfa academiaidd oni bai imi gysylltu â’r gyfadrannau lawn ysbrydoliaeth tra oeddwn yn astudio ar gyfer BSc ac yna MSc mewn Cyfrifeg a Chyllid ym Mangor. Y penderfyniad i astudio tuag at PhD ym Mangor oedd y dewis amlwg, o gofio’r gefnogaeth a’r brwdfrydedd gan staff academiaidd a rhagoriaeth academiaidd Ysgol Busnes Bangor. Bu’r ffaith imi ennill Ysgoloriaeth Dr. Paul Feeny o bwys tyngedfennol i’m gallu i astudio ymhellach. Mae’n gwneud i mi deimlo’n wylaidd iawn fod Paul Feeny, ar ôl gyrfa lwyddiannus iawn yn dilyn ei gyfnod ym Mangor, yn awyddus i gefnogi myfyrwyr lleol. A minnau wedi cael fy magu yn Ynys Môn, rhannaf ei gariad tuag at yr ardal, yn ogystal â thuang at gymuned Bangor, oddi mewn ac oddi allan i’r Brifysgol.

Mae rhodd hael gan alumnus o Fangor yn rhoi llawer mwy na chymorth ariannol yn unig. Mae’n golygu llawer iawn fy mod yn cael ysgoloriaeth gan gymwynaswr a gafodd brofiad cadarnhaol cyffelyb ym Mhrifysgol Bangor, ac sydd hefyd yn gwerthfawrogi ansawdd addysg ym Mhrifysgol Bangor. Heb gymorth ariannol hael gan alumni Bangor, diau na fyddwn i, na llawer o fyfyrwyr eraill, yn gallu parhau i astudio ar lefel ôl-radd. Ailadroddaf werthfawrogiad derbynwyr dirifedi ysgoloriaethau alumni Bangor sy’n manteisio ar y gefnogaeth ariannol ac ysbrydol a gânt trwyddynt.”



CRONFA DR. EILIR HEDD MORGAN

Bu farw Dr. Eilir Hedd Morgan, cyn-fyfyrwr ac aelod staff yn Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor, mewn damwain drasig ym mis Ebrill 2013, yn ddim ond 29 oed.

Daeth Eilir i Fangor yn wreiddiol yn 2002 i ddarlennu Bioleg y Môr, ac arhosodd ymlaen i ennill rhagoriaeth mewn MSc Bioleg Pysgodfeydd Pysgod Cregyn a Rheolaeth yn 2007 a chwblhau

ei PhD ym mis Tachwedd 2012. Ar ôl hynny fe’i penodwyd i swydd bum mlynedd fel y darlithydd cyfrwng Cymraeg cyntaf ym maes Ecoleg y Môr. Roedd yn ymroddedig i’r iaith Gymraeg, ac yn llysgennad gwych i’r Brifysgol a Chymru.

Er cof amdano, mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu ‘Cronfa Ysgoloriaeth Prifysgol Bangor Dr Eilir Hedd Morgan’. Bydd yr arian a roddir i’r gronfa hon yn cefnogi lleoliad haf 5 wythnos bob blwyddyn i fyfyrwr israddedig cyfrwng Cymraeg yn yr ail flwyddyn sy’n astudio Bioleg y Môr i wneud gwaith ymchwil, ac i ariannu gwoabr ar gyfer y sgwrs PhD gorau yn y flwyddyn gyntaf yng Nghynhadledd Myfyrwyr Ôl-radd Ymchwil Gwyddorau Naturiol.

Os hoffech gyfrannu at y gronfa, ewch i: www.bangor.ac.uk/giving/eilir_fund ac anfonwch eich ffurflen wedi ei llenwi ynghyd â’r cyfraniad at: Paula Fleck, Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.

CRONFA BANGOR

Eleni cynhaliwyd ein hymgyrch ‘telethon’ fwyaf llwyddiannus hyd yma, gyda thîm o 35 o fyfyrwyr presennol yn codi dros £95,000 tuag at Gronfa Bangor.

Cafodd y Grŵp Cymwynasau geisiadau gan wahanol adrannau, ysgolion a cholegau am grantiau o’r gronfa Anghenion Mwyaf, y gronfa Cefnogi Myfyrwyr, y gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a’r gronfa Gwella’r Campws.

Rhoddyd grantiau tuag at:

- **Y ddarpariaeth chwaraeon.** Rhoddodd Cronfa Bangor arian i brynu peiriant draenio i gaeau chwarae Treborth. Ni fydd raid canslo gemau oherwydd caeau gwlyb o hyn ymlaen!



- **Ysgol Cerddoriaeth.** Prynwyd piano cyngerdd Yamaha newydd i’r myfyrwyr ei ddefnyddio i ymarfer, a rhoddyd arian at gostau adnewyddu ein piano Boesendorfer Imperial yn Neuadd Prichard-Jones.



- **Y Gwasanaeth Cyngori.** Mae Cronfa Bangor wedi prynu rhaglen ar-lein i gynorthwyo myfyrwyr a staff sy’n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl cyffredin.
- **Bwrsariaeth teithio i fyfyrwr PhD** yn yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg.
- **Cefnogaeth ariannol** i HackSpace, project dan arweiniad myfyrwyr, yn yr Ysgol Peirianeg Electronig.

- **Cyflodgwydd.** Cafodd myfyrwyr o’r Ysgol Gwyddorau Biolegol brofiad gwaith â chyflod trwy roi arddangosfeydd gwyddoniaeth i’r cyhoedd.



- **Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau.** Rhoddyd grant i adleoli ac adnewyddu Canolfan Ymchwil R.S. Thomas yn Narllena Shankland (isod).



Diolch yn fawr i bob un o’n cyfranwyr hael.

Proffiliau ALUMNI



Mae'r alumna Antonia Lloyd (Saesneg, 1995) wedi dychwelyd i'r Brifysgol yn ddiweddar i weithio fel swyddog heddlu a fydd yn ymwneud yn benodol â helpu ein myfyrwyr. Yma mae'n dweud wrthym mor falch ydyw o fod yn un o blismyn Bangor.

"Rwy'n hynod falch bod fy ngyrfa yn yr heddlu wedi dod â mi'n ôl i Brifysgol Bangor fel ei swyddog heddlu penodedig. Mae gennyf le cynnes yn fy nghalon i'r Brifysgol gan i mi astudio am radd mewn Saesneg yma o 1992-1995. Rwy'n gobeithio y bydd fy mhrofiadau yn y Brifysgol yn fy helpu i ddeall y materion sy'n bwysig i fyfyrwyr; ar y llaw arall, fel plismon fe allaf innau dynnu eu sylw at faterion nad ydynt yn ymwybodol ohonynt efallai. Rwy'n teimlo'n bur amddiffynnol ohonynt a dweud y gwir! Mae Bangor yn lle diogel iawn i fyw ynddo; fodd bynnag, mae yna bethau y gall myfyrwyr eu gwneud bob amser a fydd yn lleihau unrhyw risgiau ymhellach.

Dewisais astudio ym Mangor oherwydd bod y cwrs yn edrych yn un da iawn, a hefyd oherwydd bod y Brifysgol yn un gyfeillgar, Bangor ddim yn rhy fawr a digon o gyfleoedd i fynd i ddringo'n lleol! Ar ôl graddio gweithiais am gyfnod byr yn Uned Gyrfaoedd y Brifysgol cyn mynd i deithio. Ar ôl rhyw flwyddyn neu ddwy o'r ardal, dychwelais i Fangor pan ymunais â Heddlu Gogledd Cymru yn 2001. Treuliais ddwy flynedd fel plismones ym Môn cyn ymuno â'r uned ymateb arfog am ddeg mlynedd, gan fynd i ddiwyddiadau lle defnyddid arfau dros holl ardal y llu. Hefyd yn ffodus iawn, cwrddais â'm gŵr tra yn yr uned hon ac rydym yn byw yn ardal Bangor bellach.

Yn y swydd hon byddaf yn gallu annog mwy o fyfyrwyr i ddod i weld yr heddlu gydag unrhyw broblemau sy'n eu poeni, yn ogystal â'u haddysgu sut i leihau ymhellach unrhyw siawns iddynt ddiodesod o ganlyniad i droseddau. Rwy'n arbennig o awyddus i ennill ymddiriedaeth myfyrwyr rhyngwladol sydd mewn sefyllfa unigryw yn astudio mor bell o'u cartrefi a chefnogaeth teulu. Mae angen eu sicrhau bod ein heddlu'n ymdrin â materion yn gyfrinachol a phroffesiynol a'i bod yn hawdd troi atom.

Gellwch ein dilyn ar Twitter (NWPBangorUniPolice) a Facebook (Bangor Bobbies)"

"Rwy'n falch o ddweud fy mod yn cyfrannu at Gronfa Bangor, gan fod y gefnogaeth mae'r gronfa hon yn ei rhoi i fyfyrwyr, a'r profiad o astudio ym Mangor, yn werth chweil."

Ar ôl graddio yn 1981, ymunodd Tim Haines, cyn-fyfyriwr o Fangor, â'r BBC ac aeth ymlaen i gynhyrchu rhaglenni fel Walking with Dinosaurs. Yma, mae Tim yn dweud wrthym sut mae ei amser ym Mangor wedi cael effaith barhaol.

"Yn yr ysgol uwchradd, chawsom ni fawr ddim cyngor ynglŷn â'r dewis o brifysgolion, felly roeddwn yn dibynnu'n bennaf ar yr hyn a ddarllenais yn llawlyfr UCCA. Roedd gan Brifysgol Bangor ddeuwis trawiadol o gyrsiau mewn gwyddorau naturiol, sef yr hyn yr oeddwn am ei wneud. I ddechrau, dewisais Sŵleg Môr, ond newidiais i Sŵleg Gymhwysol oherwydd fy niddordeb mewn trychfilod. Ar ôl yr hyn a ymddangosai fel blynyddoedd o astudio Mathemateg neu Gemeg neu Ffiseg ar gyfer Bioleg, pleser pur oedd arbenigo mewn anifeiliaid yn unig. Bu Dr Cherret, Dr Runham, a'r Athro Dodds yn frwdfrydig iawn dros eu pwnc, gan wneud y darlithoedd yn ddiddorol iawn.

Ar ôl imi raddio gyda BSc mewn Sŵleg Gymhwysol, ymunais â phapur newydd meddygol o'r enw Doctor fel newyddiadurwr gwyddonol. Dair blynedd wedyn, gweithiais am blwch fel ysgrifennwr copi mewn cwmni hysbysebu cyn ymuno â'r BBC. Symudais trwy amryw o adrannau dogfennol, yn cynnwys: Uned Wyddoniaeth Radio 4, Radio a Theledu Byd Natur, Tomorrow's World, a Horizon. Byddwn bob amser yn tynnu sylw at fy nghefndir mewn gwyddoniaeth a'm profiad mewn newyddiaduraeth. Ym 1999, gwnes i gyfres ar gyfer BBC 1 o'r enw Walking with Dinosaurs, a fu'n llwyddiannus iawn. Ymhen ychydig flynyddoedd, sefydliad gwmni cynhyrchu teledu annibynnol, yn arbenigo mewn rhaglenni ffeithiol o safon uchel, o'r enw Impossible Pictures. Dros y blynyddoedd, dechreuodd Impossible gynhyrchu dramâu hefyd, a bûm yn cyd-greu cyfres o'r enw Primeval ar gyfer ITV. Y pryd hynny, enillais sawl Emmy a BAFTA. Enillais hefyd Gymrodoriaeth Er Anrhydedd gan Fangor, a oedd yn achos o falchder imi.

Mwynheais fy nghyfnod ym Mangor, nid yn unig y cwrs, ond hefyd y golygfeydd. Roedd amgylchedd Bangor yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'm cartref yn Sussex. Fodd bynnag, cefais ei bod yn brofiad therapiwtig camu oddi ar y trênn yng Ngogledd Cymru; roeddwn yn barod i ddarganfod rhan newydd o'r wlad. Pleser pur imi oedd cael hyd i em academaidd yng nghanol Eryri. Trwy gydol fy nghyfnod ym Mangor, roedd yr ardal o'i chwmpas yn rhan fawr o'i hapêl, yn ddelfrydol ar gyfer teithiau maes a chymdeithasu. Yn fy ail flwyddyn, prynais gar, fel y gallwn ddarganfod mwy am



ardal wledig brydferth Gogledd Cymru. Buaswn yn cymeradwyo Prifysgol Bangor wrth unrhyw un, yn enwedig os ydych am astudio ar gyfer gradd BSc yno.

Rwyf wedi treulio fy oes yn ceisio cyfleu gwyddoniaeth i gynulleidfa mor eang â phosibl, ac wedi gweld gwyddoniaeth a thechnoleg yn dod yn rhan hanfodol o fywydau pobl. Eto i gyd, wedi dirywio, os rhywbeth, y mae eu gallu i farnu ac i bwyo a mesur dadl wyddonol. Dyma'r rheswm fy mod yn annog y rhai sydd â diddordeb i astudio mewn prifysgol a helpu i wella lefel y drafodaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Ar ben hynny, nid ydych byth yn gwybod pryd y gall eich gwybodaeth am glefyd Paget, rhisotronau neu driniaeth ïonosfferig fod yn hynod o fuddiol o ran cael swydd ichi."

LLWYDDIANT ENFAWR



Er Cof

www.bangor.ac.uk/alumni/obituaries

Tristwch mawr i ni oedd clywed am farwolaeth sawl un o'n cyn-fyfyrrwr nodedig eleni, yn cynnwys Dr Tom Parry Jones (1958, Cemeg), a ddatblygodd anadliedd (breathalyser) electronig cyntaf y byd, yr arloesydd IVF Yr Athro Syr Robert Edwards (1951, Sŵoleg) a'r bardd a'r cyfieithydd o fri, Tony Conran (1953, Saesneg). Mae ysgrifau coffa i'w gweld ar ein gwefan.

Gosodir ysgrifau coffa a anfonir i'r Swyddfa Datblygu ac Alumni ar ein gwefan, ac maent i'w gweld ar: www.bangor.ac.uk/alumni/obituaries

Os oes gennych ysgrif goffa yr hoffech ei chynnwys ar ein tudalennau Teyrngedau, cysylltwch â: alumni@bangor.ac.uk neu ffoniwch +44 (0) 1248 388332.

Isod, ceir rhestr o enwau alumni a chyfeillion i'r Brifysgol yr ydym wedi cael gwybod am eu marwolaeth ers rhifyn diwethaf y Bangoriad.

Mae Prifysgol Bangor yn anfon cydymdeimlad at deulu a ffrindiau'r rhai isod:

Mrs Gwenno Thomas (née Morris) 1947 Cymraeg

Mr William Hamilton Canaway 1948 Saesneg

Mr Walter Josef Sheldon 1949 Cemeg

Syr Robert Geoffrey Edwards 1951 Sŵoleg

Mr John Meirion Jones 1951 Ffiseg/ Electroneg

Mr Anthony Edward Conran 1953 Saesneg

Miss Wendy Maureen Parker 1954 Saesneg/ Ffrangeg

Mr Phillip Woosnam 1954 Ffiseg

Dr Tom Parry Jones 1958 Cemeg

Mrs Alice Alvarez (née Humpheys) 1959 Ffrangeg

Dr Gwynfor Williams 1962 Cemeg

Mr Kenneth Rashleigh 1962 Biocemeg/ Amaeth.

Dr David Prestwich Tunstall 1963 Ffiseg

Mrs Valmai Diane Gagetta (née Price)
1963 Celfyddydau Cyffredinol

Dr Terence Robert Roberts 1964 Cemeg

Dr David Wyn Williams 1964 Biolog Môr

Mrs Felicity Nora Horn (née Seccombe)
1965 Saesneg/ Hanes

Mrs Brenda Carol Hutley (née Goldfinch) 1965 Hanes

Miss Helen Ruth Goodburn 1966 Ffiseg

Mr David Graham Stones 1966 Cemeg

Mrs Margaret Wyn Jones (née Lloyd) 1969 Addysg

Mrs Christine Elaine Morris (née Snell)
1969 Addysg

Miss Janet Watson 1970 Seicoleg

Mr Robert James Karlake 1970 Peirianeg Electronig

Miss Alison Margaret Davey
1975 Gweinyddiaeth Gymdeithasol

Miss Heather Margaret Bulpett 1977 Saesneg

Mr William Edward Jones 1977 Peirianeg Electronig

Mr Antony William Cressey 1977 Peirianeg Electronig

Mr David Littler Jones 1979 Addysg

Mr Peter Bernard Whiddett 1979 Ieithyddiaeth

Mr Ian Parkinson-Atherton 1980 Peirianeg Electronig

Mrs Phyllis Ann Evans (née Griffiths) 1982 Cymraeg

Dr Gordon Douglas Lowden 1984 Addysg

Mr Amiya Basu 1989 Ieithyddiaeth

Mrs Arlene May Bell 1992 Addysg

Miss Irene Mary Levisohn 1996 Hanes

Mrs Jennifer Vera Winstanley (née Roberts) 2003 MBA

Dr Eilir Hedd Morgan 2007 Biolog Pysgodfeydd Pysgod Cregyn a Rheolaeth

Mr James Andrew Atherton 2010 Ffisioleg Gymhwysol Chwaraeon ac Ymarfer

Mr Nicholas Adam Paige 2010 Gwyddor y Môr

Mrs Helen Elizabeth Burns 2010 Addysg Gynradd (uchaf)

Mrs Rosemarie Jill Palgrave 2012 Iechyd Cyhoeddus/ Hybu Iechyd

Arglwydd Môn

Mr Philip G. Brown

Mr Eifion Wyn Davies Hughes

Mr Richard Geraint Jones

Dr Anthony John Edwin Smith

Mr Gwyn Taylor-Williams

Mr Philip William Henry Titmus

Miss Melanie Martha Wachter